At Weinidogion Cymru,

**Dyletswyddau Adrodd Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013**

Yn unol â'r dyletswyddau o dan adrannau 7 (3) a 10 (2) o Ddeddf Teithio Llesol (Cymru) 2013, dyma adroddiad blynyddol Cyngor Abertawe ar gyfer y flwyddyn 2019-20.

| | |
|---|---|
| Y camau sydd wedi'u cymryd i hybu teithiau llesol | Parhaodd Cyngor Abertawe i gynnal ei ddarpariaeth ar gyfer mapiau papur ac electronig o'i rwydwaith teithio llesol. Mae'r mapiau'n parhau i wella'r ddarpariaeth wybodaeth ar gyfer lleoliadau'r llwybrau teithio llesol sydd ar gael ar draws ardal Dinas a Sir Abertawe.<br><br>Lansiwyd ymgyrch newid ymddygiad teithio llesol, sef Llwybrau Abertawe, a oedd yn darparu gwybodaeth i weithleoedd, aelodau'r cyhoedd a grwpiau, er mwyn cefnogi nifer y bobl sy'n manteisio ar gyfleoedd teithio llesol a hyrwyddo ymwybyddiaeth ohono. Sefydlwyd presenoldeb ar gyfryngau cymdeithasol hefyd a thanysgrifiodd dros 900 o bobl i dderbyn diweddariadau o'r ymgyrch.<br><br>Datblygwyd map rhwydwaith beicio newydd a gosodwyd 6 map mawr ar draws y rhwydwaith i gyfeirio defnyddwyr at y rhwydwaith oddi ar y ffordd.<br><br>Yn ystod y flwyddyn, parhaodd cyfranogwyr ar draws yr awdurdod i gwblhau hyfforddiant beicio Lefelau 1, 2 neu 3 y Safonau Cenedlaethol.<br><br>Mae sgiliau sgwter a hyfforddiant Kerbcraft yn parhau'n llwyfan rhagorol i helpu i hyrwyddo cerdded yn ôl ac ymlaen i'r ysgol, ac yn parhau i gael eu cyflwyno.<br><br>Mae gweithgareddau eraill yn cynnwys sgiliau beicio, hyfforddiant ar y gallu i gydbwyso a diwrnodau atgyweirio twll mewn teiar/Dr Bike. |

<table>
<tr>
<td>Y camau sydd wedi’u cymryd i ddiogelu llwybrau teithio llesol newydd a chyfleusterau cysylltiol a gwelliannau</td>
<td>CRONFA TEITHIO LLESOL<br>Cyflwynwyd cynigion i'r Gronfa Teithio Llesol ar gyfer nifer o gynlluniau, fel a restrir isod:<br><br>Llwybr Strategol Gogleddol Abertawe<br>• Llwybr cyswllt yr A48<br>• Llwybr cyswllt Pontybrenin<br>• Y DVLA i Ysbyty Treforys<br>• Penlle'r-gaer i dref Gorseinon<br>• Pont Ganolog Abertawe<br>Llwybrau cyswllt Dyffryn Clun<br>• Tregŵyr i Dynfant<br>• Dynfant i Gilâ<br>• Cilâ i Blackpill<br>• Llwybr cyswllt Mynedfa Ridgeway<br>Llwybrau cyswllt Canol y Ddinas<br>• Llwybr defnydd a rennir Gors Avenue<br>• Llwybr cyswllt Gogleddol Townhill<br>• Llwybr cyswllt Cockett Road<br>• Llwybr cyswllt Chwarel Rosehill<br>• Townhill Road<br>• Llwybr cyswllt Penlan Crescent, Glanmor Road a Ffynone<br>• Estyniad llwybr defnydd a rennir San Helen<br>• Lonydd beicio Walter Road a Sketty Road<br>• Llwybr cyswllt Sandfields<br>• Llwybr cyswllt Mayhill<br>Llwybrau cyswllt Moryd Llwchwr<br>• Llwybr Gogledd Gŵyr<br>• Lledaenu Pont Llwchwr<br>• Llwybr cyswllt Penyrheol<br>• Llwybr cyswllt Gogledd y Foryd<br>• Llwybr cyswllt Pengelli<br><br>CRONFA TRAFNIDIAETH LEOL<br>Cyflwynwyd ceisiadau ar gyfer y prosiectau canlynol a oedd yn cynnwys cyflwyno isadeiledd teithio llesol fel rhan o'r cynllun ehangach:<br>• Cyfnewidfa Broadway</td>
</tr>
</table>

| | |
|---|---|
| | • Cyffordd Dyfaty |
| Costau llwybrau a chyfleusterau teithio llesol newydd a gwelliannau i lwybrau a chyfleusterau teithio llesol cysylltiedig yn y flwyddyn ariannol flaenorol. | **CRONFA TEITHIO LLESOL**<br>O'r cynlluniau a restrir uchod, roedd nifer yn llwyddiannus wrth sicrhau cyllid ar gyfer cyflwyno, sef y canlynol:<br><br>***Llwybr Strategol Gogleddol Abertawe \| £2,810,000***<br>• Llwybr cyswllt yr A48<br>• Llwybr cyswllt Pontybrenin<br>• Penlle'r-gaer i dref Gorseinon (datblygiad yn unig)<br>• Y DVLA i Ysbyty Treforys (datblygiad yn unig)<br>• Pont Ganolog Abertawe<br>• Lledaenu Pont Llwchwr<br>***Llwybrau cyswllt canol y ddinas \| £1,586,000***<br>• Llwybr defnydd a rennir Gors Avenue<br>• Llwybr cyswllt Gogleddol Townhill (rhan ohono)<br>• Gors Avenue i Broadway<br>• Gwella croesfan cyffordd Mumbles Road/Mayals Road<br>• Gwella croesfan cyffordd Gors Avenue/Carmarthen Road<br><br>**CRONFA TRAFNIDIAETH LEOL**<br>Derbyniwyd dyfarniad grant i gyflwyno'r prosiect canlynol a oedd yn cynnwys cyflwyno llwybr defnydd a rennir gerllaw'r cynllun, a chroesfannau newydd wedi'u rheoli ar gyfer cerddwyr a beicwyr:<br>• ***Cyfnewidfa Broadway \| Y cyfanswm a ddyfarnwyd i'r prosiect (gan gynnwys isadeiledd teithio llesol) £1,034,000***<br><br>**CYLLID Y CYNGOR**<br>Mae Cyngor Abertawe wedi gwario £22,000 ar gynnal a chadw llwybrau ar draws y rhwydwaith presennol. |

Yn ogystal â'r uchod, mae'r wybodaeth a ganlyn yn rhoi trosolwg o'r seilwaith sydd wedi cael ei weithredu yn ystod y flwyddyn flaenorol:

| | |
|---|---|
| Gwariant dangosol ar gyfer llwybrau a chyfleusterau teithio llesol newydd a gwelliannau i lwybrau teithio llesol cyfredol ynghyd â chyfleusterau cysylltiedig sy'n cael eu hariannu'n llawn neu'n rhannol gan drydydd parti. | Dim. |
| Hyd y llwybrau newydd:<br>- Cerdded<br>- Beicio<br>- Cyd-ddefnyddio | - Mae'r llwybrau a ddisgrifir uchod wedi cyflwyno 8.4km o lwybrau defnydd a rennir newydd yn 2019/20. |
| Hyd y llwybrau wedi'u gwella:<br>- Cerdded<br>- Beicio<br>- Cyd-ddefnyddio | - Mae'r llwybrau a ddisgrifir uchod wedi cyflwyno 500m o lwybrau defnydd a rennir gwell yn 2019/20. |
| Cyfleusterau teithio llesol newydd a gwell | - Dim. |

Gwybodaeth ychwanegol (dewisol):

Cynigiwyd y fenter 'Beicio i'r Gwaith' i'r rheini sy'n gweithio yn y cyngor yn ystod haf 2019.

Rwy'n cadarnhau y bydd yr adroddiad hwn yn cael ei gyhoeddi ar-lein ac y gellir ei gael ar ffurf copi caled ar gais, yn unol â Chanllawiau statudol y Ddeddf Teithio Llesol (argraffiad 2021).

Llofnod Prif Weithredwr:

Enw Prif Weithredwr: Phil Roberts

Dyddiad cyflwyno i Weinidogion Cymru: 30/09/21